CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**05.06.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*

## *Hwb LlanNi*

## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) EY; AR; DP;JOJ;TAJ; JAJ; EO; RY; IW;DAW<br>**Ymddiheuriadau:** GW;LLMH;<br>**Mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Daganodd JAJ ddiddordeb yn y drafodaeth am CCTV |
| 3 | **Cofnodion 01.05.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 01.05.25 fel rhai cywir **(AR/EO)**<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Rhandiroedd** – nododd EO bod Mr E Hughes wedi ymweld a'r banc yng Nghaernaron ac wedi darganfod bod y cyfrif wedi ei drosglwyddo i 'holding account' gan nad oedd wedi ei ddefnyddio am gyfnod hir. Trefniadau ar y gweill dan gyfarfywddyd y Banc i'r arian gael ei drosglwyddo i gyfrif personol Mr Hughes cyn ei drosglwddo drachefn i gyfrif CC Llan. Nododd Eo bod ganddo £905 o arian parod ( taliadau rhent y plotiau (o 2022 hyd heddiw) a bydd y Clerc yn bancio hwnnw rhag blaen. Y swm terfynol fydd £2236.01. Trefnir IS Bwyllgor Safleoedd i drafod gweithredu pellach. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Materion Priffyrdd –** dim diweddariad i'r CYnlln Gweithredu. Er yn ddiolchgar o docio sydd wedi digwydd, cytunwyd i'r Clerc holi am docio pellach. Cyfeirwyd at lythyr gan breswylwyr y Ficerdy a anfondywd at yr Adran Briffyrdd yn taer erfyn am ddatrusiad addas i'r broblem hon sydd ger eu cartref.<br>Clerc hefyd i holi Priffyrdd os oes angen y draen ger Capel Ifan**.**<br><br>**Adolygu Camerau Diogelwch** – manyldeb gwaith symlach wedi ei greu er mwyn sicrhau tryloywder i'r ceisiadau. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc ei rannu.<br><br>**Diweddariad wal ger Maes Parcio Jeriwsalem** – RJ/IW wedi cynnal ymwelaid safle gyda Meirion Grieves. Clerc yn nodi bod Mr grieves wedi cysylltu i ddweud na all ymgymryd a'r gwaith am rhyw fis ac i CC Llan chwili am gontractwr amgen os yn dymuno. Cytunwyd i barhau gyda Mr Grieves ac i ofyn iddo am rhag rybudd cyn dechrau'r gwaith er mwyn sicrhau na fydd moduron ar y safle – Clerc i weithredu.<br><br>**Cais i ddefnyddio Eglwys Ceidio** - dim ond cais i fynd i dynnu lluniau sydd bellach. MAe'r briodas yn Eglwyss Snates Fair. Cytunwyd i'r cais a'r Clerc i gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd addas mewn grym.<br><br>**Cloc y Pentref** – angen cyflenwad trydan i'r Lych Gate. MAe'r broses yn gymleth ond cytunwyd i RJ cyfarfod a swyddog CSYM i weld os gallwn gael cyswllt o'r polyn golau stryd. Clerc i holi Smaiths of Derby am y posibilrwydd o storio'r cloc hyd nes bydd y trydan wedi ei ddatrys.<br><br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 05.06.25 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Symud Eliseg** – adroddod y Clerc am y broses o symud Eliseg yn ôl i Langollen. Mewn cytundeb a'r Cadeirydd penderfyniad i gynnig lluniaeth i weithwyr Bob Francis a gwirfoddolwyr Rheolffordd Llangollen yn ddiolch am ei benthyg ac am drefnu y broses symud heb gost i CC Llan. Cytunwyd i'r ôl-wariant o £71.90 i Caffir' Stresion. Hefyd, mae Rheolffordd LLangolen wedi rhoi y cledrau a'r trawstiau sylfaen yn rhodd i C C Llan<br><br>Mae Mr Kevin Owen oedd ar y safle yn creu fidio o'r symud wedi gofyn am gael y cynnig cyntaf i'w prynu. Mae Mrs Bella Kennet yn garedig iawn wedi gwneud y gwaith ymchwil am y costau ac wedi eu cadarnhau gyda chwmni Pheonix Caergybi – sef £250. Clerc i holi Mr Owen eto a gofyn iddo am y dull o'u trosglwyddo. Cynnigiod |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | JAJ bod yr £250 mynd i goffrau'r Ardd Gymunedol am gartrefu Eliseg ar y safle. Eilwyd gan JOJ ac fe gytunwyd yn unfrydol.<br>• **Cymeradwyo Diweddaru Rheoliadau Cyllidol** – cyflwynodd y Clerc gopi diwygiedig o'r Rheolau Sefydlog dan argymhellaid Unllais Cymru. Cynnigodd TAJ godi gwariant cyn bod rhaid cael 3 pris i dros £2K ac fe eilwyd gan AR – cytunwyd yn unfrydol. Cynnigiodd DAW i'w cymderadwyo'r polisi ac fe eilwyd gan TAJ – cytunwyd yn unfrydol.<br>• **Cymeradwyo Polisi Goddef Dim** – cyflwynodd y Clerc y polisi newydd hwn yn dilyn pryder am ddiogelwch Cynghorwyr, staff a chontractwyr CC Llan. Cytunwyd i addasu 3.1 i ddarllen yn gywir a 3.1.1 i gynnwus unrhyw gontractwyr i CC Llan. Cynnigiodd DAW ac fe eilwyd gan AR – cytunwyd yn unfrydol.<br>• **Ebost am hyfforddiant Cynllunio** – nododd y clerc ei bod wedi cadw lle i CC Llan ar y gyfres yma o hyfforddiant ddosbarth eisoes. Mae cyfle i fwy nag un fynychu trwy ZOOM yn yr Hwb.<br>• **Ffordd allan o Stryd Bach ger Arosfa** – cwyn i law bod trafnidiaeth trwm yn dod i'r lon fawr ger yr ardal yma ac yn difrodi y tai naill du. DAW i drafod gyda Mr Jackie Jones perchennog Arosfa yn y man cyntaf<br>• **Diffibrilyddion** - nododd JAJ bryder am y drefn os yw y diffib wedi ei ddefnyddio. Dywedodd JL bod CC Llanfechell wedi gwneud gwaith ar hyn yn ddiweddar. Cytunwyd i'r Clerc holi ymhellach.<br>• **Sul y Cofio. –** nododd JAJ bod angen adolygu cynrychiolaeth i osod torchau yn dilyn colli Mr Lligwy Davies yn ddiweddar. Cynnigwyd Cyng Jukes ei hun gan DAW ac fe eilwyd gan IW - ac fe gytunwyd yn unfrydol. Cyflwynwyd enw Mr Phil Green – EY i holi ymhellach. Pawb i ystyried enwau eraill sydd a chyswllt a'r lluoedd arfog – trafod ymhellach mis nesaf.<br><br>Cytunwyd i gynnal cyfarfod ychwanegol i wahodd Mr Declan Pritchard i drafod sefydlu Paneli Solar ar ei dir tu ôl i Maes Athen. Hefyd i ddebyn Adrodd Archwiliwr Mewn ol i gyfrifon 2024-25<br><br>Cytunwyd hefyd i dewis Is-Gadeirydd yn y cyfarfod llawn nesaf. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 01.05.25**<br>• Cyflog Clerc – Mai = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Eryl Williams coladu'r cyfrifon - £200<br>• Nwy Prydain Trydan Clwb Bowlio £18.69<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £12.76<br>• Clive Harper – lluniaeth symud Elisge £71.90<br>• Unllais Cymru – aeldoaeth £277<br>• Meirion Greives – clirio rwbel ger y Fynwent $80 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | • Nwy Prydain trydan Goeden Dolig £13.23<br>• CSYM les Glan Menai £34.74<br>• HJT Electricals tystysrif Caffi £328.47<br>• Lwfans Aelod £150<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £67.24<br>• Nwy Prydain trydan Clwb Bowlio £20.70<br>• " " Uned 2 £14.18<br>• " " CPD (5 mis) £112.09<br><br>**Biliau cyfredol**<br><br>• AJ Pipeline – boiler y Caffi £180<br>• Clive Harper – Pest Control Caffi £300 (cost dwy flynedd sef 2 archwiliad blynyddol statudol)<br>• XPose Media 4 arwydd baw ci i Cae Gofeb £120<br>• JRB Enterprises bagia baw ci £77.88<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £13851.96<br>**Cyfrif Cadw:** £42121.12<br><br>Holodd AR os ydi CC Llan yn gallu hawlio'r lwfans i Cynghorwyr yn ôl? Clerc i holi ymhellach<br>Nododd hefyd bod grwp Caru Llan yn cwestiynu pam bod rhaid i grwp cymunedol dalu am ddefnyddio'r Hwb. Dywedodd DAW sy'n aelod o Tim Rheoli HWB LlanNi bod rhaid goflau am olau, trydan a chyflogau i'r fenter dalu am ei hun. Nodwyd nad yw'r costau llogi yn uchel o'i gymharu a lleoliadau eraill ar yr Ynys.<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2023-24 –** adroddiad Archwilio Cymru wedi derbyn. A'i gylchredeg eisoes, trafodwyd y cynnwys. Gan gydnabod bod materion wedi codi fydd angen sylw roedd yr adroddiad yn nodi nad oedd materion difrifol wedi eu hamlygu. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith caled i ddarparu ar gyfer yr Archwiliad Llawn cyntaf hwn, gan gydnabod bod y gwaith yn gallu bod yn feichus.<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** cyfrifon yn nwylo yr Archwiliwr Mewnol ers 14 Mai. Derbyniwyd addewid y byddai gwybodaeth ar ebost i law ar gyfer cyfarfod heno – ni dderbyniwyd. Cytunwyd bydd rhaid cael cyfarfod ychwanegol i'w derbyn cyn diwedd mis Mehefin – sef gofyn statudol Archwilio Cymru.<br><br>O ganlyniad, trafodwyd y pwysau cynyddol ar y Clerc i weithredu'r gyllideb. Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau pellach i greu swydd Swyddog Cyllidol |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | gyda'r opsiwn i leihau cyflog/oriau'r Clerc o ganlyniad. Trafod ymhellach mis nesaf. |
| 6 | **Materion Cynllunio -** dim i law |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** adroddodd JL ar y Cynllun Datblygu LLeol a'r galw gan CSYM am safleoedd adeiladu posib.<br>Cyfeiriodd hefyd at sesiwn briffio am fferm solar Maen Hir. Os caiff ganiatad, bydd yn cylchredeg y cyflwyniad. |
| 8 | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel –** y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd yn mynd rhagddo<br>**Safle'r Stesion** – cyfeiriodd y Clerc at y costau o gynnal a chadw cyfarfpar y Caffi sy'n eiddo C C Llan – sicrhau tystygrif trydan EIHC a tystysgrif bolier. Rhaid fel landlord gofalu am hyn a bod costau yn gallu bod yn fwy gan fod y cyfarpar yn rhai masnachol yn hytrach na domestig.<br>Roedd hefyd bil i law am 2 flynedd o waith Rheoli Pla – CC Llan yn gyfrifol i dalu hwn. Cytunwyd yn unfrydol.<br>**Lawnt Fowlio –** Diolchwyd i EO am ei waith yn trwshio'r ffens sy'n cael ei maluro'n barhaus. Cytunwyd i geisio pris am dorri'r coed ar hyd y terfyn a chael pris am osod ffens amgen.<br>**Clwb Peldroed –** gwaith i ddatrys y bil trydan yn mynd rhagddo – cwyn swyddogol wedi gofrestru gyda Scottish Power.<br>**Mynwentydd** – JL i holi ymhellach am greu les gyda CSYM am y Fynwent Gyhoeddus. Clerc i holi am y costau posib gyda'n Twrna yn y man cyntaf.<br>Prisiau Giat y Fynwent – nododd y Clerc bod Mr Eric Davies (pris rhataf) wedi cysylltu yn nodi nad oedd y pris yn cynnwys galfaneiddio'r giat. Hyn yn gost ychwanegol o £250 – y pris terfynol yn parhau i fod y pris gorau am arian. Clerc i ofyn i Mr Davies fwrw 'mlaen a'r gwaith yn syth.<br>**Cae Gofeb –** cais i law gan Caru Llan am gefnogaeth CC Llan i gyflwyno cais am grant Loteri i wella darn nesaf Cae Gofeb. Clerc i gynnig les 5 mlynedd i Caru Llan ac iddynt hwytha ymgeisio am y grant yn uniongyrchol. Clerc i weithredu<br>Cyfeirwyd at y difrod yn ardal Trac Beics newydd – arwyddion wedi eu tynnu lawr/plygu. Nodwyd bod enwau i lawr am blant blwyddyn 3 a 4 sef 8/9 oed. Clerc i adrodd yn swyddogol i'r Heddlu a derbyn eu harweiniad ar ddull o gosbi. |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Nodwyd bod coeden wedi pydru ger safle Trac Beics – ychwnaegu torri hon at waith clirio cae top – Clerc i son wrth RPO Williams.<br><br>**Rhandiroedd –** Trafodwyd eisoes.<br><br>**Glan Menai –** cafwydd galwad ffon gan Rheolwr Practis Glan Menai yn nodi diffyg staff cyfredol ac o ganlyniad lleihad yn y gwasanaeth dros dro. Bydd y feddygfa ar agor pob bore yn unig am gyfnod o 6-8 wythnos. Mae gwasanaeth llawn ar gael i pob claf yng Nghoed y Glyn Llangefni hyd at 6 yr hwyr.<br><br>Diolchwyd i Coed y Glyn am y wybodaeth fel gall y Cynghorwyr adrodd i'r gymuned yn gywir. Byddwn yn cael ein cadw'n gyfredol o'r sefyllfa.<br><br>Cyfeirwyd eto at y llain tir gyfochrog a'r Bull tu cefn i'r fflatiau sydd eiddo CSYM. Y llain wedi ei hawlio gan gyn denat sydd bellach wedi symud oddi yno ond yn parhau i gadw eu cwn yn y siediau sydd wedi eu gosod ar y safle.<br><br>Cytunodd JL a'r Clerc i gysylltu a CSYM eto i dderbyn arweiniad ar gysylltu a'r Heddlu ac RSPCA. |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br><br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd trwy ebost ers cyfarfod mis Ebrill |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 9pm* | |



Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383